# PWYLLGOR CRAFFU'R AMGYLCHEDD AC ADFYWIO

Hysbysiad o Benderfyniad – Cyfarfod Hybrid, 12 Tachwedd, 2024.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd S. Lloyd-Selby (Cadeirydd); Cynghorydd C. Iannucci-Williams (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr C.E.A. Champion, P. Drake, V.P. Driscoll, A.M. Ernest, M.J. Hooper, J.M. Norman, E. Penn, J. Protheroe a S.T. Wiliam.

Hefyd yn bresennol: CynghorwyrC.P. Franks, W.A. Hennessy, G. John (Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Lles), C. Stallard ac M.R. Wilson (Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu).

EITEM AGENDA 2. COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Hydref, 2024 fel cofnod cywir.

EITEM AGENDA 3. DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

EITEM AGENDA 4. CYNLLUN AIL-WYNEBU TAIR BLYNEDD CYNNAL A CHADW PRIFFYRDD DIWYGIEDIG 2024 – 2027 (CYF) –

ARGYMHELLWYD –

(1) Diwygio'r gwall teipograffyddol ym mharagraff 2.9 yr adroddiad, ynghylch y gyllideb refeniw a ddarparwyd ar gyfer clytio ar draws Bro Morgannwg, o £200k, fel y nodwyd yn yr adroddiad, i'r ffigur cywir o £850k.

(2) Y byddai swyddogion Cyngor Bro Morgannwg yn adolygu, ymhen blwyddyn, y pwysoliad a roddir i "ddiffygion yn y llinell awydd beicio" fel rhan o'r Matrics Sgorio Blaenoriaethu Ail-wynebu Ffyrdd Cerbydau (Atodiad B i'r adroddiad).

(3) Nodi'r Cynllun Ail-wynebu Tair Blynedd Cynnal a Chadw Priffyrdd 2024 – 2027.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1) Er mwyn i'r manylion ynghylch clytio o fewn y gyllideb refeniw a ddarparwyd fod yn gywir.

(2) Sicrhau bod y pwysoliad priodol yn cael ei roi ar gyfer diffygion yn y llinell awydd beicio fel rhan o’r Matrics Sgorio Blaenoriaethu Blaenoriaethu Ailwynebu Ffyrdd Cerbydau ac asesiad y Peirianwyr. Roedd hyn er mwyn adlewyrchu'r effaith bosibl ar feiciwr(wyr) oherwydd diffygion o'r fath.

(3) O ystyried cynnwys y cyfeiriad, yr adroddiad a’r trafodaethau yn y cyfarfod, cyn iddo gael ei gytuno’n ffurfiol ac i alluogi’r Cynllun terfynol i gael ei gymeradwyo ar ôl iddo gael ei ystyried gan y Pwyllgor, gan nad oedd unrhyw sylwadau yn effeithio ar y Cynllun, fel y cynnygiwyd, wedi ei dderbyn.

EITEM AGENDA 5. DIWEDDARIAD MONITRO ARFORDIROL (CAT) –

ARGYMHELLWYD – Y dylid nodi'r rhaglen bresennol o fonitro'r arfordir.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a’r trafodaethau yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 6. ADRODDIAD DIWEDDARU 6 MIS AR WASANAETHAU BWS LLEOL YM MRO MORGANNWG (CAT) –

ARGYMHELLWYD –

(1) Cyfeirio’r sylwadau canlynol i’r Cabinet:

- Cefnogodd a chanmolodd y Pwyllgor y gwaith a wnaed gan swyddogion Cyngor Bro Morgannwg er mwyn mynd i’r afael â’r heriau parhaus o ran darparu bysiau lleol a oedd yn diwallu anghenion trigolion;
- Roedd y Pwyllgor yn pryderu am yr anallu hyd yma i sicrhau darpariaeth ddigonol i gefnogi gwasanaethau bysiau a thrafnidiaeth ysgol lleol;
- Roedd y Pwyllgor hefyd yn bryderus ynghylch y trafodaethau a oedd yn digwydd ynghylch nifer y teithwyr rhwng darparwyr gwasanaethau bysiau a Llywodraeth Cymru nad oeddent yn cael eu rhannu â'r Cyngor. Gofynnodd y Pwyllgor felly i'r Cabinet ddefnyddio ei drafodaethau ar wahanol lefelau o Lywodraeth Cymru er mwyn tynnu sylw at fwy o rannu data a'r sylwadau/materion eraill a godwyd.

(2) Nodi cynnwys yr adroddiad.

(3) Bod adroddiad pellach yn cael ei ddarparu i'r Pwyllgor ym mis Rhagfyr 2024 yn manylu ar ailgyflwyno gwasanaeth Greenlinks G1.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1) Er mwyn i’r Cabinet ystyried y sylwadau a wnaed gan y Pwyllgor, ac ystyried eu trafod â Llywodraeth Cymru, yn enwedig ynghylch rhannu gwybodaeth am niferoedd teithwyr ar wasanaethau bysiau Bro Morgannwg, o ystyried bod y Cyngor yn un o gyllidwyr sylweddol gwasanaethau bysiau. . Felly, yr oedd yn destun pryder oherwydd ei bod yn bwysig bod y Cyngor yn deall a oedd gan y llwybrau dan sylw y potensial i ddod yn fasnachol hyfyw eto fel y gellir canolbwyntio ymdrechion yn y meysydd hynny, yn enwedig er mwyn hyrwyddo’r defnydd o fysiau ymhellach.

(2) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a’r trafodaethau yn y cyfarfod.

(3) Diweddaru'r Pwyllgor ar wasanaeth Greenlinks.